AMDANOM NI

DR CHARLOTTE LEE

Celloedd

60 MUNUD

CWRDD Â NHW

Mae Charlotte yn wyddonydd meddygol sy'n gweithio ar hyn o bryd mewn cwmni sy'n darparu addysg a chyngor i feddygon a chleifion. Roedd Charlotte yn arfer gweithio fel ymchwilydd gwyddonol mewn ysbyty yn Llundain – treuliodd 4 blynedd yno'n ymchwilio i sut i drawsblannu celloedd yr iau/afu i blant sydd wedi cael niwed i'w iau/afu. Ei gwaith oedd ceisio cadw'r celloedd yn fyw a sicrhau eu bod yn gweithio am gymaint o amser â phosib. Byddai iau/afu'r claf yn cael amser wedyn i wella, ac yna i weithio yn y modd arferol heb fod angen trawsblaniad.

Gwyliwch y Fideo (18 MUNUD)

GWEITHGAREDD:CELLOEDD BLASUS

Adnoddau: bisged ddigestif, eisin, botymau siocled, careiau mefus, resins, 'sprinkles', 'M&M's'.

Os nad yw'r adnoddau hyn ar gael ar eich cyfer, gallwch ddefnyddio papur lliw a siswrn a thorri siapiau bob un o nodweddion y gell. Dylech geisio defnyddio papur o liw gwahanol ar gyfer bob nodwedd, fel y gellir eu hadnabod yn hawdd.

Gofalwch eich bod yn meddwl am alergeddau a gofynion dietegol, gellir defnyddio eitemau sy'n fwy addas ar gyfer eich gofynion yn lle'r pethau da/siocledi y cyfeiriwyd atynt yn y gweithgaredd hwn.

Rhan o fiocemeg yw edrych ar gelloedd sy'n gwneud organebau byw. Ar gyfer y gweithgaredd hwn, byddwch yn edrych ar y strwythurau sy'n gwneud cell anifail.

1. Cymerwch fisged ddigestif a gorchuddiwch hi ag eisin, bydd yr eisin yn gweithredu fel Cytoplasm. .

Beth yw cytoplasm?

.....

2. Rhowch fotwm siocled yng nghanol y fisged, hwn fydd y niwclews.

Beth yw rôl y niwclews?

.....

3 Rhowch un o'r careiau mefus o amgylch y tu allan i'r gell. Hon yw'r gellbilen.

Beth yw rôl y gellbilen?

.....

4 Rhowch resins yn y gell, y rhain fydd y mitocondria.

Beth yw swyddogaeth y mitocondria?

.....

5 Ychwanegwch glystyrau bach o 'sprinkles', bydd y rhain yn gweithredu fel y ribosomau.

Beth yw ribosomau?

.....

Yn olaf, mwynhewch eich celloedd blasus!

Extension: Add a couple of M&M's, these will be lysosomes.
What are lysosomes?

CAMAU NESAF...

Os ydych yn 4-18 oed ac wedi cael eich ysbrydoli i greu **prosiect 'Scratch'** ar y themâu a gynhwyswyd yma, cyflwynwch y prosiect i gystadleuaeth godio 'Amdanom Ni'/'About Us' erbyn 23:59 GMT ar 19 Rhagfyr 2021, am gyfle i ennill gwobrau rhyfeddol. Gallwch hefyd gofrestru ar gyfer y **gystadleuaeth farddoniaeth** ar yr un thema trwy gyflwyno cerdd. Fe gewch ragor o wybodaeth a chofrestru ar-lein yn aboutus.earth.

Cafodd yr adnodd yma ei greu gan Stemettes o dan hawlfraint BY-NC-SA. Hawlfraint yn cael ei chadw gan Stemettes 2021. Mae Stemettes yn nod masnach cofrestredig.